# Cyflogau Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

11 Rhagfyr 2014

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a wnewch chi ddatgelu'r holl ymatebion i ymgynghoriad y bwrdd ynghylch: cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn olaf cyn y Pumed Cynulliad.*

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd") yn gorff annibynnol ar wahân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. At ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf"), cedwir y wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ran y Bwrdd. A bod yn fanwl gywir, nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cadw'r wybodaeth honno, ond mae'r Bwrdd wedi darparu'r ymateb a ganlyn, felly dyma ei rannu â chi ar ran y Bwrdd.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 36 o'r Ddeddf pan fodlonir meini prawf penodol. Yn benodol, pe bai datgelu'r wybodaeth, ym marn resymol y person cymhwysol, yn amharu ar y gallu i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol, neu pe bai'n debygol o wneud hynny, caiff y wybodaeth honno ei heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu. Yn yr achos hwn, ystyrir mai holl aelodau'r Bwrdd gyda'i gilydd yw'r "person cymhwysol".

Ym marn y Bwrdd, byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu ar y gallu i gynnal materion cyhoeddus gan fod dyletswydd ar y Bwrdd i ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad (ymhlith pobl eraill). Mae'r broses ymgynghori yn rhan ganolog a hanfodol o waith y Bwrdd. Mae'n hollbwysig i'r broses ymgynghori barnhau'n gadarn. Pe na bai'n gwneud hynny, byddai'n amharu ar allu'r Bwrdd i weithio'n effeithiol.

Mae'n hynod o bwysig fod pob rhanddeiliad yn teimlo'n sicr ynghylch mynegi ei farn i'r Bwrdd. Byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn annog rhanddeiliaid i beidio â gwneud hynny yn y dyfodol. Yn ei dro, byddai hynny'n amharu ar y broses ymgynghori, a byddai'n debygol o effeithio ar safon y penderfyniadau a wneir ac felly leihau gallu'r Bwrdd i weithio'n effeithiol.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru

Byddai datgelu'r wybodaeth hefyd yn debygol o amharu ar y berthynas ffyddiog rhwng y Bwrdd ac Aelodau'r Cynulliad. Mae'r berthynas hon yn rhan hollbwysig o'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd. Byddai effeithio'n wael ar y berthynas honno yn amharu ar y broses ymgynghori, a byddai'n debygol o effeithio ar safon y penderfyniadau a wneir ac felly leihau gallu'r Bwrdd i weithio'n effeithiol.

Mae Adran 36 yn "eithriad cymwys". Mae hynny'n golygu fod yn rhaid i'r Bwrdd gynnal "prawf lles y cyhoedd". Diben y prawf hwn yw penderfynu ai cynnal yr eithriad yntau datgelu'r wybodaeth a fyddai'n sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd. Wrth gynnal prawf lles y cyhoedd, ystyrir bod y ffactorau a restrir uchod yn bwysicach na'r budd a ddaw i'r cyhoedd os datgelir y wybodaeth.

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb, cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn uniongyrchol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF